

Cymraeg. Gyda'n gilydd mewn un llais: Lefel A

Yn gryno

Ein nod yw ysbrydoli mwy o fyfyrwyr i ddewis Cymraeg fel Lefel A, gyda'r nod o fod yn athro pwnc Cymraeg yn y dyfodol.

Rydym wedi siarad â disgyblion sydd ar fin dewis eu Lefel A i ddysgu pam fod rhai eisiau ac eraill ddim eisiau dewis Cymraeg fel opsiwn. Dyma beth ddysgon ni:

- Mae angen i'r pynciau maent yn eu dewis fod yn berthnasol i'w gyrfaoedd yn y dyfodol
- Mae angen i'r pynciau maent yn eu dewis eu helpu i gael lle ar y cwrs prifysgol maent wedi'i ddewis
- Maent yn fwy tebygol o ddewis pynciau maent yn debygol o gael graddau da ynddynt
- Maent yn fwy tebygol o ddewis pynciau maent yn eu mwynhau neu y mae ganddynt ddiddordeb ynddynt
- Maent yn deall bod siarad mwy nag un iaith yn sgîl pwysig, ond nid ydynt yn credu y byddai'r Gymraeg o fantais iddynt y tu allan i Gymru
- Mae'r dewis yn gyfyngedig, ac mae disgyblion yn ystyriol o hyn wrth wneud penderfyniadau

Er mwyn taro tant gyda'n cynulleidfa, rydym yn gweithio gyda disgyblion a myfyrwyr TGAU, Lefel A a phrifysgol presennol i lywio a chreu'r ymgyrch gyda ni. Bydd yn fodern a chyffrous, ac yn cael ei llunio ar gyfer y sianeli y mae ein cynulleidfa'n eu defnyddio fwyaf – Instagram, Snapchat a Tiktok. Drwy becyn o gynnwys digidol-yn-gyntaf, byddwn yn rhannu golwg gyflawn y Gymraeg mewn Lefel A ac yn dangos sut gall yr iaith agor drysau i lawer o opsiynau gwych. Byddwn yn siarad yn benodol â'r disgyblion a'r bobl sy'n dylanwadu arnynt – rhieni ac athrawon.

Sut gallwch chi fod yn rhan o hyn?

Gyda'ch profiad gwerthfawr o weithio gyda disgyblion ac athrawon uwchradd, gallwch ein helpu i gyrraedd cynulleidfa ehangach a siarad yn uniongyrchol â phobl ifanc i'n helpu i adeiladu a siapio cynnwys ein hymgyrch.

Helpwch ni gydag astudiaethau achos

Os oes gennych unrhyw ddisgyblion rhagorol, rhieni neu athrawon y gallwch eu hawgrymu i fod yn rhan o'r ymgyrch, rydym yn chwilio am siaradwyr Cymraeg sydd â barn amrywiol ar y pwnc Lefel A Cymraeg ond sydd hefyd yn llawn brwdfrydedd, cymeriad a hyder. Mae ein manylion ar ddiwedd y ddogfen hon.

Rhannwch gynnwys yr ymgyrch

Rydym wedi creu cynnwys i chi ddefnyddio ar eich sianeli eich hunain (gweler isod). Byddai'n wych clywed mwy am yr hyn rydych chi eisoes yn ei wneud i hyrwyddo Lefel A Cymraeg fel y gallwn greu cysylltiadau â'ch gwaith presennol.

Beth allwn ni ei roi i chi?

O fis Ionawr i fis Mawrth (a thu hwnt) byddwn yn gweithio gyda phobl ifanc, ysgolion ac athrawon ledled Cymru i greu'r cynnwys canlynol, sy'n edrych ar chwalu anwireddau ynghylch pam nad yw disgyblion yn dewis Cymraeg fel Lefel A.

Cynnwys i athrawon:

- Fideo yn ateb y cwestiynau mwyaf cyffredin y mae rhieni a disgyblion yn eu gofyn i athrawon am astudio Lefel A Cymraeg.

Cynnwys i rieni:

- Fideo yn ateb y cwestiynau mwyaf cyffredin y mae rhieni yn eu gofyn i athrawon am astudio Lefel A Cymraeg
- Trafodaeth fideo rhwng disgybl sy'n ystyried astudio Lefel A Cymraeg a'i rieni, a pham eu bod yn cefnogi'r penderfyniad
- Trafodaeth ben-ben rhwng rhiant sydd o blaid Lefel A Cymraeg ac un arall sydd heb ei argyhoeddi.

Cynnwys i ddisgyblion:

- Cyfres o gynnwys fideo a wnaed gan ddisgyblion yn dilyn eu harchwiliad o'r Gymraeg fel pwnc Lefel A – yn yr ystafell ddosbarth, yn y brifysgol, ac yn y gweithle. Bydd fideos yn ymdrin â phynciau fel bod yn athro Cymraeg, astudio'r Gymraeg ochr yn ochr â phynciau STEM, y Gymraeg mewn chwaraeon, yn arbennig y gwaith o hyrwyddo'r iaith dramor yn ystod yr Ewros, a Chymraeg cymdeithasol
- Fideo yn ateb y cwestiynau mwyaf cyffredin y mae disgyblion yn eu gofyn i athrawon am astudio Lefel A Cymraeg
- 8 rheswm dros beidio â bod yn athro Cymraeg – a fydd, wrth gwrs, yn rhoi wyth rheswm gwych dros ddewis bod yn athro

Bydd y fideos hyn ar gael i chi eu defnyddio ar eich sianeli eich hun o sianel [YouTube Cymraeg](#) a sianeli cymdeithasol. Cadwch eich llygaid ar agor am lawer o gynnwys gwych dros yr ychydig wythnosau a misoedd nesaf, oherwydd byddwn yn cynnig pethau drwy'r amser.

Negeseuon ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol

Byddwn yn cyhoeddi'r ymgyrch ar Chwefror 27ain. Byddwn yn anfon copi o'n cynnwys cymdeithasol bob pythefnos a fydd yn cynnwys holl rannau allweddol yr ymgyrch i chi eu defnyddio.

Dilynwch y datblygiadau

Dilynwch ni ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol @Cymraeg ([Twitter](#), [Facebook](#), [YouTube](#)) i gael y newyddion diweddaraf am yr ymgyrch, adnoddau a ffyrdd o gymryd rhan.

Beth am sgwrs?

Os oes gennych syniad am sut y gallwch ein helpu i hyrwyddo Lefel A Cymraeg a'ch bod angen help i'w wireddu, cysylltwch â ni:

Scott Wilson-Evans scott@wearecowshed.co.uk

Sarah Morgan sarah@wearecowshed.co.uk

02920 789321